**RHYBUDD I'R CYFRYNGAU**
**30 Hydref 2008**

**Cyhoeddir gan Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK)**

## ADDYSG: DEWIS GYRFA Y WASGFA GREDYD

*Gweithwyr y DU yn heidio i'r sector addysg wrth i'r hinsawdd economaidd orfodi ailasesu gyrfaoedd*

***Neidiodd yr ymholiadau am hyfforddiant athrawon a dderbyniodd Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Dysgu Gydol Oes yn y DU i anterth o 41% yn ystod mis diwethaf yn unig. O'u cymharu â diwedd y llynedd (Rhag 07), bu codiad o 300%.***

Mae pryderon am yr hinsawdd economaidd bresennol wedi arwain at newid radicalaidd yn agwedd pobl tuag at ddatblygu gyrfa, yn ôl ymchwil newydd gan ymgyrch "Make a Difference" Dysgu Gydol Oes yn y DU.

**Sector sy'n 'ddiogel rhag dirwasgiad'?**
Dangosodd y pôl, o blith 2,000 o reolwyr ledled y DU, y byddai mwy na hanner yn gwerthfawrogi swydd a fyddai'n caniatáu iddynt wneud gwahaniaeth a theimlo fel petaent yn rhoi yn ôl i gymdeithas. Byddai un o bob pedwar a arolygwyd yn ystyried gyrfa newydd mewn rheoli yn y sector addysg. Mae bron 70% o reolwyr yn cyfaddef nad eu swydd ddelfrydol yw eu swydd bresennol ac mae bron 80% yn cyfaddef bod yn ddifater neu'n dioddef iselder wrth feddwl am barhau yn eu gyrfa bresennol tan ymddeol.

Gyda'r newyddion drwg am y wasgfa gredyd yn dominyddu'r newyddion, a diweithdra ar fin codi, mae llawer o bobl yn mynd ati i chwilio am ddewis gyrfa fwy diogel. O ganlyniad, mae cyfle rheoli ym maes addysg wedi dod yn un o'r "swyddi delfrydol" pennaf i bobl sy'n gweithio fel rheolwyr canolig ac uwch reolwyr yn y DU.

**MEDIA ALERT**
**30th October 2008**

**Issue by Lifelong Learning UK (LLUK)**

## EDUCATION: THE CREDIT CRUNCH CAREER CHOICE

*UK workers flock to education sector as economic climate forces career reassessment*

***Enquiries about teacher training received by Lifelong Learning UK's Information and Advice Service rocketed 41% in the last month alone. Compared to the end of last year (Dec 07), there has been a 300% increase***

Worries about the current economic climate have led to a radical change in people's attitude towards career development, according to new research from Lifelong Learning UK's "Make a Difference" campaign.

**The 'recession proof' sector?**
The poll, of over 2,000 managers across the UK, showed that over half would value a job which would allow them to make a difference and feel as if they're giving back to society. One in four surveyed would consider a new career in management in the education sector. Nearly 70% of managers admit their current job is not their dream career and almost 80% admit to being indifferent or outright depressed at the thought of continuing in their current career until retirement.

With credit crunch doom and gloom dominating the news, and unemployment set to rise, many people are actively searching for a more secure career option. As a result, a management opportunity in education has become one of the top "dream jobs" for those working in mid to senior management in the UK.

**Catalydd: dros newid**

Mae ymgych Make a Difference Dysgu Gydol Oes yn y DU yn rhan o'r rhaglen Catalydd, a'i nod yw annog ymgeiswyr am swyddi rheoli o bob sector i ystyried datblygu eu gyrfa ymhellach drwy ysgwyddo rolau rheoli yn y sector addysg bellach (AB). Bydd y cynllun yn cyllido rhaglen datblygu arweinyddiaeth 12 mis werth £10,000 y person i ymgeiswyr cymwys. Mae hyn yn cynnwys tiwtora, hyfforddi, dysgu gweithredol a mynediad i'r holl adnoddau perthnasol a'i nod yw cynnig llwybr carlam i gyfranogwyr i swyddi uwch arweinwyr. Bydd y recriwtiaid llwyddiannus yn llenwi swyddi gwag presennol mewn sefydliadau AB.

Mae'r ymchwil wedi nodi nad arian yw'r prif gymhelliant i lawer o reolwyr, er y gall ymgeiswyr llwyddiannus y rhaglen Make a Difference ddisgwyl cyflog cychwynnol o tua £32,000 *(gweler y nodyn i Olygyddion)* oddi wrth eu cyflogwr sy'n cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol i weithwyr amser llawn sef £30,000.

Dywed Alan Clarke o Dysgu Gydol Oes yn y DU: "Mae digwyddiadau seismig yn yr amgylchedd ariannol ac economaidd wedi arwain llawer o bobl i ail-werthuso eu gyrfaoedd. Gyda bygythiad colli swydd yn hollbresennol, mae llawer o reolwyr yn y DU wrthi'n mynd ar drywydd llwybrau gyrfa amgen. Mae gyrfa mewn addysg bellach yn cynnig heriau tebyg i'r sector preifat ac yn mwynhau gwobr ariannol gystadleuol hefyd. Mae'r sector addysg bellach wedi cydnabod bod gwybodaeth a sgiliau mae rheolwyr yn eu datblygu ym maes busnes a sectorau eraill yn drosglwyddadwy, ac wedi agor y drws i ymgeiswyr i ddangos sut gallant wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y sector. Bydd y rhaglen Make a Difference yn helpu recriwtiaid dawnus i bontio o'r rolau presennol i yrfa rheoli mewn AB, gan helpu i ddiwallu anghenion y sector nawr ac yn y dyfodol."

Gall unigolion a sefydliadau hyfforddi a sgiliau

**Catalyst: for change**

Lifelong Learning UK's Make a Difference campaign is part of the Catalyst programme, and aims to encourage management candidates from all sectors to consider further developing their careers by taking up management roles in the further education (FE) sector. The scheme will fund a 12 month leadership development programme worth £10,000 per person to eligible candidates. This includes tutoring, coaching, action learning and access to all relevant resources and is designed to fast-track participants into senior leadership positions. Successful recruits will fill current vacancies in FE organisations.

The research has identified that money is no longer the primary motivator for many managers, although successful candidates in the Make a Difference programme can expect a starting salary of circa £32,000 *(see notes for Editors)* from their employer which compares favourably with the national average for full time employees of £30,000.

Alan Clarke of Lifelong Learning UK comments: "Seismic events in the financial and economic environment have led many people to re-evaluate their careers. With the threat of redundancy ever present, many UK managers are actively looking to explore alternative career paths. A career in further education offers similar challenges to the private sector and enjoys competitive financial remuneration too. The further education sector has recognised the transferability of knowledge and skills developed by managers in business and other sectors and has opened the door to applicants to demonstrate how they can make a real difference in the sector. The Make a Difference programme will help talented recruits transition from their current roles into a management career in FE, helping to meet the needs of the sector now and in the future."

Interested individuals and training and skills

fynegi diddordeb neu gofrestru lleoedd gwag drwy fynd i'r wefan, www.changeyourfuture.org a llenwi'r ffurflen ar-lein.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y rhaglen cewch gyflwyno cwestiwn drwy'r wefan neu siarad â chynghorydd Make a Difference drwy ffonio 0845 602 7012.

**I drefnu cyfweliad â llefarydd Make a Difference, neu i gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Rhian Lewis neu Julie Fourcade ar 020 7009 3100 neu rhian@3-monkeys.co.uk / julie@3-monkeys.co.uk yn 3 Monkeys Communications.**

**- DIWEDD -**

1 Ffynhonnell: Annual Survey of Hours and Earnings, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2007)

organisations can express an interest or register vacancies by visiting the website, www.changeyourfuture.org and simply completing the online form.

If you would like more information about any aspect of the programme you can submit a question via the website or speak to a Make a Difference advisor by calling 0845 602 7012.

**To set up an interview with a Make a Difference spokesperson, or to receive more information, please contact Rhian Lewis or Julie Fourcade on 020 7009 3100 or rhian@3-monkeys.co.uk / julie@3-monkeys.co.uk at 3 Monkeys Communications.**

**- ENDS -**

1 Source: Annual Survey of Hours and Earnings, Office for National Statistics (2007)

**Nodiadau i Olygyddion**
Mae sefydliadau addysg bellach yn gyrff annibynnol. Cymerir y ffigur o £32,000 o raddfeydd cyflog yr Undeb Prifysgolion a Cholegau.

Cynhaliodd OnePoll www.OnePoll.com arolwg omnibws ar ran Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK) rhwng 06/10/2008 ac 20/10/2008 ymhlith sampl cynrychioliadol yn genedlaethol o 2,224 o weithwyr cyflogedig ar lefel rheolwyr.

**Ynghylch LLUK**
Mae LLUK yn aelod o'r Gynghrair Cynghorau Sgiliau Sector. LLUK yw un o 25 o Gynghorau Sgiliau Sector sy'n rhan o'r Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes – mae pob un yn gorff annibynnol sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr. Gweler: www.lluk.org

Nod LLUK yw annog athrawon, hyfforddwyr, llyfrgellwyr a staff eraill i ennill sgiliau a chymwysterau newydd er mwyn iddynt gynnig gwasanaeth gwell i bobl ifanc, oedolion sy'n ddysgwyr, gweithwyr a'r gymuned ehangach

Mae LLUK hefyd yn hyrwyddo dysgu gydol oes fel gyrfa fel bod gan gyflogwyr yn y sector lai o anhawster wrth recriwtio a chadw staff

Yn ogystal â datblygu safonau galwedigaethol a fframweithiau cymwysterau ar gyfer y sector cyfan, mae LLUK hefyd yn cynhyrchu gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn i gyflogwyr dysgu gydol oes gael nodi bylchau a phrinderau sgiliau ymhlith eu gweithlu eu hun

Mae Make a Difference yn cael ei gyllido gan yr Adran Arloesi, Prifysgolion a Sgiliau. Am fwy o wybodaeth ewch i *www.catalystprogramme.org.*

**Ynghylch Catalydd**
Mae'r rhaglen Catalydd yn creu cyfleoedd newydd i ddarparwyr addysg bellach (AB) siapio gweithlu'r dyfodol. Gan weithio gyda'r Adran Arloesi, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS), bydd y rhaglen

**Notes to Editors**
Further education organisations are independent bodies. The figure of £32,000 is taken from University and College Union salary scales.

OnePoll www.OnePoll.com conducted an omnibus survey for Lifelong Learning UK (LLUK) between 06/10/2008 and 20/10/2008 amongst a nationally representative sample of 2,224 employees at manager level.

**About Lifelong Learning UK**
Lifelong Learning UK (LLUK) is a member of the Alliance of Sector Skills Councils. LLUK is one of 25 Sector Skills Councils that make up the Skills for Business Network - each one is an employer-led, independent organisation. See: www.lluk.org

LLUK aims to encourage teachers, trainers, librarians and other staff to gain new skills and qualifications so that they offer a better service to young people, adult learners, employers and the wider community

LLUK also promotes lifelong learning as a career so that employers in the sector have less difficulty recruiting and retaining staff

In addition to developing sector-wide occupational standards and qualifications frameworks, LLUK also produces labour market intelligence so that lifelong learning employers can identify skills gaps and shortages among their own workforce

Make a Difference is funded by the Department for Innovation, Universities and Skills. For more information visit *www.catalystprogramme.org.*

**About Catalyst**
The Catalyst programme is creating new opportunities for further education (FE) providers to shape the workforce of the future. Working with the Department for Innovation, Universities and Skills

Sgiliau i Broffesiynolion Dysgu

Skills for Learning Professionals

Catalydd yn cyflwyno cynlluniau recriwtio i raddedigion, rheolwyr ac arbenigwyr galwedigaethol a thechnegol, ac yn darparu cyfleoedd newydd i athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr ddiweddaru eu sgiliau galwedigaethol.

(DIUS), the Catalyst programme will introduce recruitment schemes for graduates, managers and vocational and technical experts, and provide new opportunities for teachers, tutors and trainers to update their vocational skills.